## Beth os ……

……ydych yn tynnu'r ddau rif?

……ydych yn lluosi'r ddau rif?

……ydych yn defnyddio dau ddis â deg ochr yr un?

……ydych yn defnyddio un dis degau ac un dis unedau?

……ydych yn defnyddio un dis degau ac un dis cannoedd?

……oes gennych dri dis?


…….ydych yn defnyddio un dis coch ac un dis gwyrdd?




Heriau Digit Dog © Lynwen Barnsley 2017

This FREE resource is available from: www.primarytreasurechest.com

# Her Dau Ddis






**Cydiwch yn yr her** – cyn taclo'r her, gadewch i ddysgwyr drafod beth yw amcan yr her yn eu barn nhw. Anogwch ddysgwyr i ddweud beth maen nhw'n ei weld ac i ddatod yr her.

**Beth ydych chi'n sylwi arno? Beth mae Digit Dog wedi bod yn ei wneud?**
**Beth mae Digit Dog yn meddwl amdano? Esboniwch yn eich geiriau eich hun a dangoswch i mi gyda'r dis mawr.**

Anogwch ddysgwyr i roi sylwadau ar esboniadau ei gilydd: Ydych chi'n cytuno gyda'r hyn y mae eich ffrind newydd ei ddweud?

## Beth fydd yr ateb yn eich barn chi?

Anogwch ddysgwyr i amcangyfrif a gwneud rhagfynegiadau.
**Gofynnwch:** Beth fydd y cyfanswm uchaf / isaf? Pam?
Faint o gyfansymiau allai fe wneud at ei gilydd yn eich barn chi?
**Gwnewch awgrymiadau:** A fydd e'n gallu gwneud 100 o gyfansymiau?
Mwy nag 1 cyfanswm? Faint yn fwy nag 1?
Pam ydych chi'n dweud hynny? Esboniwch beth rydych yn meddwl.

**Dywedodd Calculating Cat...**




**Beth ydych chi'n meddwl?** Ydych chi'n meddwl ei bod hi'n iawn? **Pam mae / nad yw hi'n iawn?**

## Gwneud yr her

Gofynnwch i ddysgwyr awgrymu dulliau taclo'r her a chofnodi eu gwaith.
**Gofynnwch:** Sut ydych chi'n mynd i gofnodi eich gwaith? Pa gyfansymiau ydych chi wedi eu darganfod?
Ydy eich holl gyfansymiau'n wahanol? Sut byddwch chi'n gwirio a ydych eisoes wedi darganfod y cyfanswm? Faint o gyfansymiau ydych chi wedi eu darganfod? Ydych chi wedi eu darganfod nhw i gyd? . Sut ydych chi'n gwybod? Sut gallwch chi wirio a ydych wedi colli unrhyw rai?

## Trefnwch eich gwaith

Anogwch ddysgwyr i drefnu eu gwaith, bod yn systematig a chwilio am batrymau.
**Awgrymwch** ddefnyddio glud-nodiadau neu ddarnau o bapur i gofnodi cyfrifiadau a chyfansymiau unigol. Wedyn gellir aildrefnu a didoli cyfansymiau a chwilio am batrymau.
Rhowch eich patrymau yn eu trefn. Pa batrymau ydych chi'n sylwi arnynt?
Os yw un dis yn dangos 1, beth allai'r disiau eraill ei ddangos?



Chwiliwch yn graff am batrymau

## Esboniwch beth rydych yn meddwl

Anogwch ddysgwyr i ddisgrifio ac esbonio beth maen nhw'n ei wneud.
Disgrifiwch beth rydych wedi ei wneud. Sut daethoch o hyd i'r cyfansymiau? Esboniwch sut rydych yn gwybod eich bod wedi darganfod yr holl gyfansymiau.
Darbwyllwch eich hun. Darbwyllwch eich ffrind.

**Heriau Digit Dog © Lynwen Barnsley 2017**